OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1180 (Cy. 239)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy'n Symud (Sir Gaerfyrddin) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Tachwedd 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *15 Tachwedd 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Rhagfyr 2018* |

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraffau 9(1) a 10(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("y Ddeddf")(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru i Orchymyn gael ei wneud o dan y pwerau hyn mewn cysylltiad â Sir Gaerfyrddin.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu Dyfed Powys yn unol â gofynion paragraff 10(4) o Atodlen 8 i'r Ddeddf.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy'n Symud (Sir Gaerfyrddin) 2018 a daw i rym ar 10 Rhagfyr 2018.

### Dynodi ardal gorfodi sifil

**2.** Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi Sir Gaerfyrddin yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau lonydd bysiau; a

(b) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau traffig sy'n symud.

(**1**) 2004 p. 18.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Yn rhinwedd adran 92(1) o'r Ddeddf, dynodwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awdurdod cenedlaethol priodol o ran Cymru, at ddibenion Rhan 6 o'r Ddeddf honno.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Ken Skates*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

13 Tachwedd 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi Sir Gaerfyrddin yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Mae Sir Gaerfyrddin eisoes wedi ei dynodi yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio o dan y Ddeddf honno gan Orchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Gaerfyrddin) 2004 (O.S. 2004/104 (Cy. 11)), y'i bernir gan baragraff 8(4) o Atodlen 8 i'r Ddeddf i fod yn orchymyn sy'n dynodi'r ardal yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio o dan baragraff 8 o Atodlen 8 i'r Ddeddf.

Effaith ymarferol y Gorchymyn yw galluogi Cyngor Sir Caerfyrddin i orfodi'r gyfraith ar dramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud yn Sir Gaerfyrddin drwy gyfundrefn cyfraith sifil.

Gellir cael Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a Memorandwm Esboniadol oddi wrth y Gangen Orchmynion, Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.